Bwletin Awdurdod S4C
Cyfarfod 304 - 18 Hydref 2007
S4C, Caerdydd

Mae'r bwletin hwn yn adrodd ar gyfarfod yr Awdurdod a gynhaliwyd ar 18 Hydref 2007.

1. Croeso
Esboniodd y Cadeirydd fod yr Awdurdod yn ei gyfarfod ar 17 Hydref wedi penderfynu yn unfrydol i benodi Eira Davies yn Is-Gadeirydd i'r Awdurdod yn unol ag adran 4.5 y Rheolau Sefydlog.

2. Ymgynghoriad Plant
Nodwyd bod Ofcom wedi cyhoeddi adolygiad ar ddyfodol darlledu i blant. Nodwyd bod sylwadau positif wedi eu cynnwys am ddarpariaeth S4C yn y maes.

Cytunodd IJ i gyflwyno cynllun prosiect a chyllideb ar gyfer cymal cyntaf y gwasanaeth plant i Aelodau'r Awdurdod erbyn cyfarfod fis Tachwedd. Cytunodd hefyd i adrodd ar gynnydd y gwasanaeth plant yn erbyn y cynllun prosiect yn fisol o hyn allan.

3. Adroddiad y Cadeirydd
Nododd y Cadeirydd ei fod wedi ymweld â chynadleddau'r pleidiau gwleidyddol, a diolchodd i CLl, Tim Hartley a Gwydion Lyn am eu cymorth i drefnu'r ymweliadau.

Nododd bod Adroddiad Effaith Economaidd S4C ar Economi Cymru 2002 – 2006 wedi ei gyhoeddi ac wedi derbyn sylw ffafriol yn y wasg.

Nododd y Cadeirydd ei fod wedi mynychu derbyniad gan Autism Cymru ar 17 Hydref, a'i fod wedi gwneud nifer o gyfweliadau yn ymwneud â phen-blwydd S4C yn 25ain.

Diolchodd i Alun Thomas am ei waith fel Ysgrifennydd dros dro i'r Awdurdod dros y saith mis diwethaf.

4. Adroddiad y Prif Weithredwr
Cyflwynodd IJ ei hadroddiad. Cyfeiriodd at Adolygiad Darlledu Cyhoeddus Ofcom.

Nododd IJ fod gr□p Boomerang ar fin listio ar y Farchnad Buddsoddiadau Amgen (AIM).

Nododd IJ fod S4C wedi arwyddo lês ar gyfer swyddfeydd newydd yn Noc Fictoria yng Nghaernarfon.

Mae IJ wedi ysgrifennu at Nia Wyn Thomas sydd yn gadael ei swydd gyda TAC i ddiolch iddi am ei chyfraniad yn ystod ei chyfnod yn gweithio i TAC.

5. Cymeradwyo Cyllideb 2008
Cyflwynodd KM y gyllideb drafft ar gyfer blwyddyn ariannol 2008 a'r amcangyfrifon drafft ar gyfer 2009 – 2017 a chafwyd trafodaeth ar gynnwys y gyllideb drafft a'r nodiadau esboniadol.

6. Cymeradwyo Cynllun Corfforaethol 2008
Esboniodd IJ ei bod wedi adolygu'r targedau ar gyfer 2008 a'i bod wedi symleiddio sawl targed i adlewyrchu yn well yr hyn yr oedd S4C yn dymuno ei gyflawni yn ystod 2008.

7. Materion Eraill
Yn ogystal, trafodwyd/nodwyd y materion canlynol:

- Adroddiad Cwynion a Chydymffurfiaeth
- Cofnodion Pwyllgor Archwilio a Rheoli Risg
- Cofnodion Pwyllgor Personél a Chydnabyddiaeth
- Adroddiad a Chyflwyniad Ymchwil
- Adroddiad y Cyfarwyddwr Comisiynu
- Rhaglen Waith yr Awdurdod 2007
- Tabl Digwyddiadau am 2007